big pit national coal museum
amgueddfa lofaol cymru

geiriau glo

Pecyn adnoddau i diwtoriaid Cymraeg ei ddefnyddio yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

rhagair

nodyn i'r tiwtor

Mae Big Pit yn dehongli agwedd bwysig iawn ar ein treftadaeth ddiwydiannol, sef y diwydiant glo. Yn ei gyfrol *The Rhondda Valleys*, wrth drafod y dylifiad o Loegr i'r cwm ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, dywed Dr E.D. Lewis, 'Contemporaries declared with more than a semblance of truth, judging by the keenness with which English miners learnt Welsh, that the collieries of the Rhondda Valleys were the best linguistic "schools" in the Principality at that time.' Yn ogystal â chyflwyno'r diwydiant glo i ddysgwyr y Gymraeg, gobeithiwn y gallwn ninnau, trwy gyfrwng y defnyddiau hyn, gyfoethogi eu gwybodaeth o'r iaith.

Rôl y tiwtor
Mae hi'n bwysig eich bod yn ymgyfarwyddo â chynnwys yr unedau cyn ymweld â Big Pit er mwyn dewis tasgau sy'n addas i'ch myfyrwyr. Dylid sicrhau bod y rhan fwyaf o'r cystrawennau a'r eirfa o fewn eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu bod hefyd yn dysgu rhai pethau newydd wrth ymgodymu â'r tasgau. Sicrhewch fod pawb yn deall y cyfarwyddiadau ac yn gwybod beth yn union y disgwylir iddynt ei wneud cyn dechrau.

Dylech fod ar gael wrth i'r myfyrwyr ymgymryd â'r tasgau i ateb cwestiynau neu i gynnig help os bydd angen. Dylid manteisio ar unrhyw siaradwyr Cymraeg eraill sydd ar gael hefyd, er mwyn i'r dysgwr ymgyfarwyddo â siarad â dieithriaid. Dylech hefyd geisio hwyluso trafodaeth ymhlith aelodau'r grŵp a gydag aelodau o staff yr Amgueddfa.

Ar ôl cwblhau'r ymarferion, byddai'n fuddiol trafod unrhyw anawsterau, tanlinellu unrhyw bwyntiau allweddol a hwyluso trafodaeth ar y gwaith. Bydd pawb yn cofio pethau gwahanol ac yn ymddiddori mewn gwahanol agweddau ar y profiad. Mae'n bwysig, felly, meithrin ysbryd o gydweithrediad rhwng y dysgwyr er mwyn i bawb rannu gwybodaeth a diddordebau ei gilydd. Aelodau'r grŵp ddylai fod yn siarad fwyaf – ac nid y tiwtor.

Yn olaf, cofiwch bob amser y dylai dysgu fod yn hwyl. Rhan hanfodol o waith tiwtor yw calonogi, ysgogi, annog a chanmol ymdrechion y myfyrwyr yn gyson. Felly, pob hwyl ichi ar eich ymweliad â Big Pit.

Diolchiadau
Bu staff Big Pit, yn enwedig Sharon Ford (Swyddog Addysg) a Ceri Thompson (Curadur) yn gymorth hawdd ei gael ar hyd y daith. Diolch i Helen Prosser, Prifysgol Morgannwg, am fwrw golwg ar y cynnwys a hefyd i Dr Rhiannon Packer, Sean Driscoll a Nigel Ruddock am eu sylwadau ar y testun. Pleser arbennig oedd cael treialu'r defnyddiau yng nghwmni rhai o fyfyrwyr Coleg Gwent a'u tiwtoriaid brwd. Mawr obeithio y caiff dysgwyr, wrth ymweld â Big Pit, gymaint o bleser wrth ymgymryd â'r gweithgareddau ag y cefais i wrth eu llunio.

cynnwys

Mynediad 1

Pobl Tudalen 2

Mynediad 2

Offer a gwisg Tudalen 6

Mynediad 3

Clonc! Tudalen 11

Mynediad 4

Gweld a thrafod Tudalen 13

Sylfaen 1

Nabod y safle Tudalen 2

Sylfaen 2

Clonc! Tudalen 6

Sylfaen 3

Pobl y glo Tudalen 10

Sylfaen 4

Unigol a lluosog Tudalen 12